



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol

Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Yn fy marn i, mae darpariaethau'r Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), a gyflwynwyd ar 4 Mawrth 2010, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, rwy'n talu sylw arbennig at y materion y cyfeirir atynt yn yr Atodlen.

Y Gwir Anrh yr Arglwydd Elis-Thomas CG/AC
Y Llywydd

4 Mawrth 2010

Atodlen

- i. Yn ei lythyr ataf, dyddiedig 5 Chwefror, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn cydnabod y byddai angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer darpariaethau fyddai'n breinio neu osod swyddogaethau newydd ar Weinidogion y Goron, neu yn diddymu neu addasu rhai sydd eisoes yn bod, gan fod hyn yn ofynnol o dan baragraff 7 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- ii. Fel arfer, gall Mesur dim ond *diddymu neu addasu* swyddogaethau Gweinidogion y Goron (neu rhoi hawl i wneud hynny trwy ddeddfwriaeth elaidd), a hynny'n unig gyda chydysniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid oes, fel arfer, bwer i freinio na gosod swyddogaethau newydd (er enghraifft dyletswyddau statudol) ar Weinidogion y Goron na breinio pwer i wneud hynny *o gwbl*. Ond mae paragraff 7(2) o Atodlen 5 i'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth arbennig, mewn perthynas â Mesurau a wneir o dan faterion 20.1 a 20.2, er mwyn ei gwneud hi'n bosibl i freinio neu osod swyddogaethau newydd ar Weinidogion y Goron gan Fesur o'r fath neu gan ddeddfwriaeth eiladd a wnaed o dan Fesur felly.
- iii. Gan gofio natur Rhan 4 o'r Mesur Arfaethedig, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod safonau ymddygiad y mae'n rhaid ufuddhau iddynt mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, mae breinio neu osod swyddogaethau (dyletswyddau) ar Weinidogion y Goron yn un o'i nodweddion canolog.
- iv. Yn gyson â'r darpariaethau arferol y mae paragraff 7(1) yn ymwneud â hwy, mae'r gallu i gynnwys darpariaethau fel hyn mewn Mesur yn amodol ar gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Cynhwysir y cydsyniad hwn mewn llythyr o'r Ysgrifennydd Gwladol at y Gweinidog Treftadaeth, dyddiedig 1 Mawrth 2010 sy'n cadarnhau bod "the UK Government is content with the provisions in the proposed Welsh Language Measure which confer, impose, remove or modify functions of Ministers of the Crown and their departments." Mae'r ffaith fod y darpariaethau hyn yn disgyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad bellach wedi'i dangos felly.